Arts & Business Cymru

## Y Lleoliadau

## Rhaglen Interniaethau Creadigol

### Karolina Birger a Hijinx



*Karolina Birger*



*Greta Bettinson*

Graddiodd Karolina – sy'n dod yn wreiddiol o Wlad Pwyl – gyda gradd Dosbarth Cyntaf mewn Ffotograffiaeth o Brifysgol De Cymru. Ymgymerodd ag interniaeth Edefyn 1 gydag Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro yn 2022/23, ac mae hi wrth ei bodd o gael ei dewis ar gyfer lleoliad Edefyn 2 o fis Hydref ymlaen.

Ym Mlwyddyn 1, enillodd Karolina brofiad gwerthfawr o'r celfyddydau gydag elusen iechyd gan fwynhau cryn lwyddiant wrth godi arian, yn cynnwys sicrhau noddwr newydd at gyfer Oriel yr Aelwyd yn Ysbyty Llandochau. Dros y 10 mis nesaf, bydd yn gweithio gyda Hijinx – cwmni theatr cynhwysol sy'n darparu cyfleoedd pellgyrhaeddol, proffesiynol, i actorion a chanddynt anawsterau dysgu a/neu awtistiaeth.

*Rwy'n gyffrous iawn wrth ymuno â sefydliad celfyddydol sy'n gwneud gwaith mor bwysig. Gobeithiaf ddefnyddio'r profiad gwerthfawr enillais i wrth weithio gydag Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, tra hefyd yn datblygu sgiliau newydd fydd yn fy helpu i ddod yn godwr arian gwirioneddol fedrus.* **Karolina Birger, Intern Creadigol**

*Mae Hijinx wrth eu bodd yn croesawu Karolina a'i helpu i ddatblygu ei gyrfa ym maes codi arian. Bydd ei phrofiad a'i brwdfrydedd wrth lunio perthnasoedd nawdd sy'n fuddiol i'r ddau barti yn hynod werthfawr – yn enwedig wrth i ni gynnal yr Unity Festival, ein gŵyl gelfyddydol gynhwysol i'r anabl – am yr unfed tro ar ddeg, yr haf nesaf. Edrychwn ymlaen at weld beth ddaw dros y 10 mis nesaf!* **Greta Bettinson, Swyddog Datblygu, Hijinx**

Arts & Business Cymru

## Calum Glanville-Ellis a Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru



*Calum Glanville-Ellis*



*David Hopkins*

Graddiodd Calum Glanville-Ellis o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru eleni gydag MA mewn Rheoli'r Celfyddydau. Mae'n teimlo'n angerddol wrth edrych ymlaen at ddechrau ar yrfa ym maes codi arian, ac yn gobeithio gallu creu cyfleoedd i bawb gael mynediad at y celfyddydau, waeth beth fo eu cefndir neu eu gallu.

Lleoliad Calum fydd **Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru,** elusen sy'n cefnogi pobl ifanc greadigol drwy chwech o ensemblau o safon uchel, yn cynnwys Band Pres, Côr, Cwmni Dawns, Cerddorfa, a Chwmni Theatr.

*Rydw i'n gyffrous iawn ynghylch dechrau fy interniaeth gyda CCIC a chymryd rhan yn y gwaith gwych mae'n ei wneud. Edrychaf ymlaen yn fawr at ddatblygu fy ngwybodaeth o godi arian a chymryd y camau cyntaf yn fy ngyrfa.* **Calum Glanville-Ellis, Intern Creadigol**

*Gall sicrhau eich profiad cyntaf fel codwr arian fod yn anodd, yn enwedig oherwydd bod cynifer o gyfleoedd yn cael eu cynnig yn ddi-dâl. Dyma pam mae rhaglenni fel Diogelu at y Dyfodol mor bwysig wrth gyflwyno pobl ifanc i sector y celfyddydau. Edrychwn ymlaen yn fawr at weld Calum yn ymuno â'n tîm fel Intern Creadigol Codi Arian, a gobeithiwn y bydd hwn yn gam cyntaf iddo mewn gyrfa hapus a llwyddiannus.* **David Hopkins, Rheolwr Codi Arian a Datblygu, CCIC**

## Celeste Ingrams a Celfyddydau SPAN



*Celeste Ingrams*



*Bethan Touhig-Gamble*

Graddiodd Celeste o Brifysgol De Cymru gydag MA yn y Celfyddydau, Iechyd a Lles, ac mae'n hapus iawn i ddod yn ôl i Gymru i ddechrau eu gyrfa ym maes codi arian gyda Celfyddydau SPAN – elusen

fywiog ym maes y celfyddydau cymunedol sydd wedi'i lleoli yn Arberth, Sir Benfro. Mae Celeste, sydd eisoes wedi cael profiad gwerthfawr o weithio yn y sector, yn awyddus i ennill rhagor o sgiliau a gwybodaeth ym maes codi arian er mwyn datblygu eu gyrfa ymhellach.

*Rwyf wrth fy modd yn cael ymuno â Celfyddydau SPAN ar gyfer fy interniaeth. Mae'r gwaith gwych a wneir gan Celfyddydau SPAN yn cyd-fynd yn agos â'm gwerthoedd i; rwy'n awyddus iawn i fod yn rhan o'r gwaith hwnnw ac i drochi fy hun yn yr holl waith dysgu sydd o 'mlaen i!* **Celeste Ingrams, Intern Creadigol**

*Mae'n bleser gan Celfyddydau SPAN fod y sefydliad cyntaf yn Sir Benfro i groesawu intern. Rydym yn gyffrous o gael y cyfle i gefnogi datblygiad Celeste fel rhan o'n tîm, ac yn hapus i chwarae rôl yn y gwaith o ymestyn cyrhaeddiad Diogelu at y Dyfodol ledled Cymru.* **Bethan Touhig-Gamble, Cyfarwyddwr, Celfyddydau SPAN**

## Rhaglen Prentisiaethau Creadigol

**Idris Jones ac Anthem – Cronfa Gerddoriaeth Cymru**



*Idris Jones*



*Rhian Hutchings*

Mae gan Idris, sy'n hanu o ganolbarth Cymru, ddiddordeb mawr mewn Cerddoriaeth, Digwyddiadau a Dylunio Graffig, ac enillodd ddiploma estynedig mewn Celf a Dylunio yn y College of Arts, Henffordd.

Gan fod llawer o'i alluoedd creadigol yn rhai mae e wedi eu dysgu ar ei liwt ei hun, mae wrth ei fodd yn dechrau ei Brentisiaeth gydag Anthem i ddatblygu ymhellach ei sgiliau a'i gysylltiadau o fewn y diwydiant cerddoriaeth. Fel catalydd dros gerddoriaeth i ieuenctid yng Nghymru, mae Anthem yn cynhyrchu cyfleoedd ar draws gwahanol *genres* a chymunedau, ac yn meithrin talent amrywiol.

*Rwy'n teimlo'n nerfus ond hefyd yn hynod gyffrous ynghylch dechrau fy Mhrentisiaeth. Rwyf wedi ymdrechu am y rhan fwyaf o 'mywyd i weithio'n llawn amser yn y maes creadigol, ac erbyn hyn mae'n teimlo fel petai hynny o fewn cyrraedd. Mae rhannu'r daith hon gyda chwmni rwy'n meddwl yn uchel ohono yn golygu llawer iawn i mi. Rwy'n gyffrous wrth feddwl am ddysgu pethau newydd a chael cyfle i dyfu'n broffesiynol ac fel person.* **Idris Jones, Prentis Creadigol**

*Mae meithrin talent ifanc yn rhan ganolog o genhadaeth Anthem, ac mae'r rôl Prentis Creadigol yn ein galluogi i wneud hynny, gyda manteision amlwg i bawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Mae Idris yn angerddol dros gerddoriaeth yn ei ymarfer artistig ei hun, a gwyddom y bydd yn cyflwyno syniadau creadigol newydd i Anthem yn ystod yr amser y bydd yn ei dreulio gyda ni, yn ogystal â'n helpu i gyflawni ein hanghenion busnes ein hunain.* **Rhian Hutchings, Prif Swyddog Gweithredol, Anthem**

Arts & Business Cymru

## Karema Ahmed a Theatr Iolo



Karema Ahmed



Michelle Perez

Cerddor a pherson creadigol talentog o Gaerdydd yw Karema ac mae hi'n edrych ymlaen at ddatblygu ei sgiliau a'i gwybodaeth ymhellach. Oherwydd ei hoffter o'r theatr ac o weithio gyda phlant ifanc, Theatr Iolo yw'r lleoliad delfrydol iddi hi. Mae'r cwmni wedi bod ar flaen y gad yn creu theatr ar gyfer plant yng Nghymru ers dros 25 mlynedd. Bydd cyfrifoldebau Karema yn cynnwys helpu gyda chynyrchiadau theatr, cyflwyno gweithdai mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol, a rheoli'r rhaglen profiad gwaith a lleoliad.


*Rydw i'n teimlo'n gyffrous iawn, ac yn ddiolchgar am gael dechrau ar fy Mhrentisiaeth gyda Theatr Iolo. Carwn ddiolch i A&B Cymru am y cyfle hwn, ac edrychaf ymlaen at ddysgu llu o sgiliau newydd i ymestyn fy ngwybodaeth o fewn y diwydiant creadigol.* **Karema Ahmed, Prentis Creadigol**

*Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld Karema yn ymuno â thîm Theatr Iolo. Rydym yn awyddus iawn i'w throchi ym mhob agwedd o greu cynyrchiadau theatr o safon uchel ar gyfer plant. Bydd cael aelod ychwanegol o'r tîm yn ein helpu i greu effaith sydd hyd yn oed yn gryfach, a chyrraedd mwy o bobl ifanc ym mhob rhan o Gymru.* **Michelle Perez, Cyfarwyddwr Gweithredol gyda Theatr Iolo**

## Joanne West a'r Urban Circle



Joanne West



Mohamad Miah

A hithau'n hanu'n wreiddiol o Lundain, symudodd Joanne i Gaerdydd i ddilyn gyrfa yn y celfyddydau yng Nghymru. Mae'n berson creadigol uchelgeisiol sy'n angerddol dros dynnu pobl at ei gilydd. Bydd sgiliau Joanne yn gweddu'n dda i'r Cylch Trefol/Urban Circle – elusen annibynnol wedi'i lleoli yng Nghasnewydd

sy'n ymgysylltu, cefnogi a grymuso pobl ifanc a chymunedau. Bydd Prentisiaeth Joanne yn canolbwyntio ar un o brosiectau mwyaf y sefydliad hyd yma, sef *Gŵyl Reggae & Riddim.*

*Rwy'n edrych mlaen yn fawr at ddechrau ar fy nhaith gyda'r Cylch Trefol/Urban Circle. Mae hwn yn brosiect cyffrous, ac rwy'n edrych ymlaen at ddysgu pethau newydd i'm helpu i symud ymlaen yn fy ngyrfa.* **Joanne West, Prentis Creadigol**

*Rydyn ni yn y Cylch Trefol/Urban Circle Casnewydd yn edrych ymlaen at weithio gyda Jo dros y 10 mis nesaf, pan fydd hi'n cael cyfle i weld sut mae prosiect mor fawr yn cael ei ddatblygu a'i redeg. Mae hi wedi dangos elfen gref o ddealltwriaeth ddiwylliannol, a bydd yn gwneud pethau rhyfeddol ar gyfer ein gŵyl gelfyddydol ryngwladol newydd.* **Mohamad Miah, Pennaeth Cysylltiadau, Cylch Trefol/Urban Circle**

### Laura Moulding a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru



Laura Moulding



Guy O'Donnell

Graddiodd Laura o Brifysgol De Cymru gyda gradd mewn Cerddoriaeth Boblogaidd a Masnachol, ac MA mewn Cyfansoddi Caneuon a Chynhyrchu. Mae hi'n eiriolwr angerddol dros gynwysoldeb a hygyrchedd o fewn y celfyddydau. Gyda'i hoffter o gerddoriaeth a chydberthynas cymunedol, bydd ei Phrentisiaeth gyda'r Adran Cymuned ac Ymgysylltu yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn gyfle gwych i ddatblygu ei sgiliau a'i hyder ymhellach.

*Rwy'n gyffrous iawn wrth ddechrau fy Mhrentisiaeth. Rwyf wastad wedi edmygu'r Coleg o bell, ac wedi breuddwydio ers blynyddoedd am gael mynd yno. Nawr, mae gallu dweud fy mod yn gwneud fy Mhrentisiaeth gyda hwy yn anhygoel."* **Laura Moulding, Prentis Creadigol**

*Rydyn ni'n hapus iawn i groesawu Laura atom ni. Yn CBCDC, rydym wedi ymrwymo i greu gofod cynhwysol i bawb, ac mae'r brentisiaeth hon yn gyfle gwych i ddatblygu gyrfa yn y celfyddydau. Mae gan Laura nifer o sgiliau amrywiol ac edrychwn ymlaen at y cyfraniadau positif y bydd hi'n eu gwneud yn ystod ei chyfnod gyda ni. Gobeithiwn y bydd yn cryfhau ein tîm ac yn ymestyn ein cenhadaeth o hyrwyddo mynediad at y celfyddydau.* **Guy O'Donnell, Pennaeth Cymunedau ac Ymgysylltiad yn y CBCDC**

Arts & Business Cymru












***Gyda diolch arbennig i gyllidwyr ein rhaglenni:***

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

Esmée Fairbairn FOUNDATION